BookTrust
Getting children reading

# Meithrin perthnasoedd trwy rannu llyfrau

## Cyflwyniad

**Perthnasoedd yw'r sail i ddatblygiad plant, ac mae tystiolaeth gymhellol bod darllen ar y cyd yn gynnar yn helpu i feithrin y cysylltiadau hanfodol hyn.** Mae hyn yn golygu bod darllen ar y cyd yn hanfodol i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn – nod sydd wrth wraidd cenhadaeth BookTrust. Mae darllen a rhannu straeon yn darparu *sgaffaldiau perthynol* ar gyfer rhyngweithiadau cyson, ymatebol sy'n ganolog i amgylcheddau dysgu cadarnhaol yn y cartref. Mae'r ddealltwriaeth hon yn sail i'n rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn ysgogi'r effaith rydym yn ei chael.

**93%** – canran ein partneriaid blynyddoedd cynnar sydd o'r farn bod ein hadnoddau yn rhan effeithiol o'r cymorth maen nhw'n ei roi i feithrin perthnasoedd rhwng rhieni a phlant

**83%** – y ganran sy'n ystyried bod ein hadnoddau yn rhan effeithiol o'r cymorth maen nhw'n ei roi i amgylcheddau dysgu plant yn y cartref[1]

## Ynglŷn â'r briff hwn

Gyda'r briff hwn, rydym yn gobeithio atgyfnerthu'r hyn y mae llawer sy'n gweithio ar draws polisi ac ymarfer eisoes yn ei gydnabod: bod rhyngweithiadau o ansawdd a pherthnasoedd cryf yn ganolog i amgylcheddau dysgu cadarnhaol yn y cartref a datblygiad plant yn ehangach. Ond ni fydd pob plentyn yn cael yr un cyfle i brofi'r rhain. Mae darllen ar y cyd yn cynnig ffordd bwerus o feithrin cysylltiadau, gan gefnogi canlyniadau gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol plant.

Trwy gyfuno ymchwil ehangach â'n mewnwelediadau ein hunain, rydym yn dangos bod darllen nid yn unig yn weithgaredd llythrennedd neu ddysgu, ond yn un perthynol hefyd. Y tu hwnt i wella canlyniadau plant, mae natur berthynol darllen yn creu dolen adborth cadarnhaol i roddwyr gofal, gan atgyfnerthu ymddygiadau sy'n llywio dysgu cyfoethog yn y cartref trwy ddyfnhau cysylltiadau. Mae ein tystiolaeth yn defnyddio methodolegau amrywiol, gan gynnwys hap-dreialon dan reolaeth, arolygon cynrychioliadol, astudiaethau ansoddol ac arsylwadol, adolygiadau systematig, meta-ddadansoddiadau, papurau damcaniaethol a chysyniadol, ac ymchwil ethnograffig arobryn BookTrust ei hun.

**I ddyfynnu'r adroddiad hwn:** BookTrust (2025) *Meithrin perthnasoedd trwy rannu llyfrau*. Leeds: BookTrust

BookTrust yw'r elusen ddarllen fwyaf i blant yn y DU. Bob blwyddyn rydym yn cyrraedd dros 1.4 miliwn o blant a theuluoedd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym yn gweithio gyda phob awdurdod lleol, gan ddarparu rhaglenni yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n gwneud gwahaniaeth mesuradwy i ymddygiadau darllen plant. Mae ein gwaith wedi'i wreiddio yn y gred bod pob plentyn, yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm isel neu deuluoedd sy'n agored i niwed, yn haeddu'r cyfle i fwynhau darllen a'r holl fanteision gydol oes mae'n eu cynnig.

**Mae darllen yn helpu plant i wneud y canlynol:**

- goresgyn anghydraddoldebau cyn iddynt ddyfnhau
- meithrin perthnasoedd â rhoddwyr gofal a phrofi gwell lles meddyliol
- cyflawni cerrig milltir datblygu cynnar a gwneud yn well yn yr ysgol
- datblygu empathi, creadigrwydd a dychymyg

## Perthnasoedd yw'r sail i ddatblygiad plant

Mae dysgu a datblygiad plant wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn ymarfer cymdeithasol a pherthynol.[2] Mae perthnasoedd gofalu cynnar, yn enwedig y rhai sy'n meithrin cysylltiadau ac ymlyniad, yn ganolog i ddatblygiad iach.[3] Mae perthnasoedd cynnar cryf yn helpu plant i feithrin cysylltiadau ystyrlon ag oedolion a chyfoedion eraill.[4] Mae ymlyniadau cynnar yn gosod y sylfaen sy'n galluogi plant i gysylltu â phobl eraill, rheoleiddio emosiynau a dysgu sut i wneud pethau newydd,[5] gan adeiladu eu hyder, eu hannibyniaeth a'u gwydnwch. Mae darllen ar y cyd yn darparu cyd-destun delfrydol ar gyfer y mathau o ryngweithiadau sy'n meithrin y perthnasoedd sylfaenol hyn.

**Diffiniadau:** Mae meithrin perthnasoedd ac ymlyniad yn brosesau gwahanol ond rhyng-gysylltiedig. Yma rydym yn cyfeirio at feithrin perthnasoedd fel yr eiliadau o agosrwydd emosiynol rhwng rhoddwr gofal a phlentyn.[6] Mae ymlyniad yn disgrifio sut mae plentyn yn datblygu disgwyliadau ac ymddygiadau yn seiliedig ar ymatebolrwydd y rhoddwr gofal – gan ei ddefnyddio fel *sylfaen ddiogel* i archwilio'r byd, a *hafan ddiogel* i ddychwelyd iddi pan fydd yn ofidus.[7] Mae gofal cyson a sensitif yn cefnogi ymlyniad cryf, sy'n cryfhau datblygiad emosiynol, gwybyddol a chymdeithasol plentyn.[8]



Nid yw ymlyniad yn rhywbeth sefydlog,[9] gellir ei ddeall orau fel patrwm deinamig o ddisgwyliadau am berthnasoedd a all ddatblygu trwy gydol bywyd. Gall ansawdd ymlyniad amrywio yn dibynnu ar brofiadau cymdeithasol a chyd-destunol plentyn.[10] Er bod theori ymlyniad wedi pwysleisio'r cysylltiad â'r prif roddwr gofal yn draddodiadol, mae gwaith mwy diweddar yn tynnu sylw at y ffaith y gall plant ddatblygu rhwydwaith diogel o berthnasoedd cefnogol hefyd, gan gynnwys teulu estynedig, gofalwyr ac athrawon, sydd gyda'i gilydd yn gallu darparu hafan a sylfaen ddiogel.[11] Oherwydd bod ymlyniad yn fwyaf agored i newid yn y blynyddoedd cynnar, gall perthnasoedd cefnogol yn ystod y cyfnod hwn fod yn arbennig o amddiffynnol i blant sy'n wynebu amgylchiadau anodd.[12]

Mae perthnasoedd ac ymlyniad cryf yn cael eu meithrin trwy ryngweithiadau syml bob dydd – lle mae plant yn dysgu sut i ymddiried a theimlo'n ddiogel trwy ofal sensitif, ymatebol.[13] Mae darllen ar y cyd yn darparu ffordd strwythuredig ond ysgafn o sgaffaldio'r cysylltiadau hyn, gan eu helpu i ddatblygu'n naturiol dros amser. Mae'n hyrwyddo cynhesrwydd, ymateboldeb a chysondeb – sylfeini ymddygiadol allweddol o ran ymlyniadau cryf a chanlyniadau datblygiadol cadarnhaol yn ehangach.[14]

Mae ein hymchwil gyda **theuluoedd gofalwyr sy'n berthynas** yn nodi y gall darllen ar y cyd ddarparu gofod perthynol pwerus, gan helpu gofalwyr a phlant i gyfathrebu, cysylltu a chyd-reoleiddio, a meithrin ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn ar yr un pryd. Darganfyddwch fwy yn ein hadroddiad: **Gwerth perthynol darllen: safbwyntiau gan deuluoedd gofalwyr sy'n berthynas**.




"Ers i Dylan ddod atom am y tro cyntaf, mae ein perthynas wedi newid yn llwyr. O'r blaen, roedd e'n fy nghadw i hyd braich... Nawr, gyda'n trefn hyfryd gyda'r nos, gan gynnwys darllen straeon, mae e'n caniatáu i mi roi cusan fach iddo ar y pen bob nos."

**Rhiant maeth, yn siarad am y Clwb Blwch Llythyrau** *(Newidiwyd enw'r plentyn)*

## Mae darllen yn cefnogi rhyngweithiadau cyfoethog rhwng y rhoddwr gofal a'r plentyn

Mae tystiolaeth gynyddol o hap-dreialon a gynhaliwyd ar raglenni darllen ar y cyd yn dangos manteision i blant ac oedolion, a gyflawnir trwy gryfhau rhyngweithiadau rhwng y rhoddwr gofal a'r plentyn. Mae'r dystiolaeth hon wedi helpu i lunio mentrau rhianta byd-eang, gan gynnwys y rhai gan Sefydliad Iechyd y Byd.

Er mwyn deall y rôl y gall darllen ar y cyd ei chwarae wrth ddatblygu perthnasoedd rhwng plant a rhoddwyr gofal, gan gynnwys ei ganlyniadau a'i fecanweithiau sylfaenol, mae angen i ni fanteisio ar fewnwelediadau o feysydd seicoleg, astudiaethau addysg gynnar, gwyddor ddatblygiadol a niwrowyddoniaeth.

**Gwella ymgysylltiad rhwng rhoddwyr gofal a phlant:**[15] Mae darllen ar y cyd yn annog sylw a chysylltiad ar y cyd, gan helpu rhoddwyr gofal i gysylltu â'u plentyn.

**Sut mae'n gweithio:** Ansawdd emosiynol darllen ar y cyd (e.e. cwtsio, gwenu, canu a chwerthin) sy'n cefnogi ymlyniad cryf, nid sgiliau darllen yr oedolyn.[16] Pan fydd rhoddwyr gofal yn defnyddio strategaethau fel oedi i weld ymateb y plentyn, gofyn cwestiynau, neu ddilyn yr hyn y mae'r plentyn yn syllu arno, maent nid yn unig yn helpu plant i ddatblygu eu ffyrdd o gyfathrebu a'u dealltwriaeth o iaith, maent hefyd yn dod i adnabod byd mewnol y plentyn yn well.[17]




**Cynyddu cynhesrwydd,[18] sensitifrwydd[19] ac ymddygiadau cadarnhaol rhoddwyr gofal:**[20] Mae darllen ar y cyd wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus mewn nifer o dreialon rhyngwladol, naill ai ar ei ben ei hun neu fel rhan o fframweithiau ehangach sy'n canolbwyntio ar sensitifrwydd, i gryfhau perthnasoedd rhwng plant ac oedolion.[21]

**Sut mae'n gweithio:** Mae darllen ar y cyd yn darparu cyd-destun strwythuredig ar gyfer sylwi ar arwyddion plant ac ymateb iddynt, gan atgyfnerthu rhyngweithiadau cefnogol. Mae degawdau o ymchwil ym maes datblygiad plant yn dangos bod sensitifrwydd rhoddwyr gofal yn un o'r rhagfynegwyr mwyaf cadarn o ganlyniadau cadarnhaol i blant, fel ymlyniad diogel,[22] datblygiad gwybyddol ac iaith cryfach,[23] gwell rheoleiddio emosiynol, a gwell cyflawniad a mwy o fwynhad yn yr ysgol. Mae darllen ar y cyd yn lleoliad naturiol ar gyfer y sensitifrwydd hwn. Wrth i ofalwyr ddod i adnabod arwyddion eu plentyn ac ymateb gyda chynhesrwydd, maent yn cryfhau'r cyswllt rhyngddynt ac yn creu cyfleoedd i ddysgu a datblygu hefyd.



**Lleihau'r straen y mae rhoddwyr gofal yn ei deimlo:**[24] Mae darllen ar y cyd yn darparu gweithgaredd rhagweladwy a phleserus sy'n helpu rhoddwyr gofal i deimlo'n hyderus eu bod yn gallu cefnogi a chysylltu â'u plentyn. Mae awyrgylch tawel darllen ar y cyd hefyd yn cefnogi iechyd emosiynol gwell i roddwyr gofal a phlant.

**Sut mae'n gweithio:** Mae presenoldeb cyson rhoddwyr gofal yn ystod amser darllen yn helpu i reoleiddio rhythmau ffisiolegol ac emosiynol plant ifanc, gan eu halinio â rhythmau'r rhoddwr gofal a hyrwyddo cyd-reoleiddio.[25]

"Rydyn ni'n anadlu mewn ffordd benodol, ond rydyn ni hefyd yn creu'r rhythmau dyddiol hirdymor hyn trwy ddarllen ar yr un pryd a phob dydd. Pan fyddwn ni'n creu'r mathau hyn o strwythurau i blant, mae ein plant yn dod i'w deall ac mae'n helpu eu rhythmau eu hunain, sy'n fwy anhrefnus yn naturiol, i ddod yn fwy sefydlog, yn fwy rhagweladwy, yn fwy tebyg i rythmau oedolion."

**Yr Athro Sam Wass, Sefydliad Gwyddor Blynyddoedd Cynnar ym Mhrifysgol Dwyrain Llundain**



## Mae rhyngweithiadau o ansawdd yn annog arferion darllen

Nid yw meithrin perthnasoedd ac ymlyniad yn ganlyniadau darllen ar y cyd yn unig, maent hefyd yn rhan o gylch gwobrwyo i rieni a rhoddwyr gofal, wrth iddynt fwynhau gweld eu plant yn tyfu ac yn profi rhyngweithiadau cyfoethog ac ymatebol. Mae ein hymchwil yn dangos bod gwobrau byrdymor a hirdymor yn cymell rhieni a rhoddwyr gofal i ddarllen mwy gyda'u plant. Yn yr eiliad, mae amser gwerth chweil gyda'i gilydd yn dod â manteision uniongyrchol i agosrwydd, tra bod y profiadau hyn yn creu arferion gwerthfawr dros amser.[26]

Pan fydd rhoddwyr gofal yn darllen mewn ffordd gynnes, ddifyr a rhyngweithiol, gan gysylltu â diddordebau ac anghenion eu plentyn, mae plant yn mwynhau llyfrau yn fwy. Mae hyn yn creu dolen adborth cadarnhaol, lle mae mwynhad plant yn rhoi hwb i hyder a hunaneffeithiolrwydd rhoddwyr gofal[27] ac ymdeimlad ei fod yn werth chweil,[28] gan eu cymell i barhau i ddarllen.

Mae cymorth darllen yn y blynyddoedd cynnar yn fwyaf effeithiol pan mae'n cael ei ddathlu ac yn cael ei ddarparu mewn ffordd gadarnhaol. Mae cynnwys hyn o fewn y gwasanaethau craidd a ddarperir i deuluoedd yn sicrhau manteision ychwanegol. Mae tystiolaeth yn dangos bod integreiddio cymorth darllen mewn ymweliadau iechyd yn cryfhau perthnasoedd teuluoedd â darparwyr gofal iechyd.[29] Rhywbeth y mae ein partneriaid – gan gynnwys ymwelwyr iechyd, sy'n arbenigwyr mewn ymlyniad cynnar ac yn bartneriaid allweddol wrth ddarparu Dechrau Da Babi – yn ei gydnabod ac yn ei werthfawrogi.

> "Pan rwy'n codi'r *Edrych Arna' I*, mae'n dechrau chwerthin yn syth oherwydd rwy'n rhoi fy nau fys i mewn ac rydyn ni'n cerdded, cerdded, cerdded, ac rwy'n mynd 'edrych' arna' i' ac rwy'n edrych trwy'r tyllau ac mae e'n gallu gweld fy llygaid ac mae e'n cael gwneud hynny hefyd. Felly rwy'n credu ei fod yn llawer mwy o hwyl iddo fe... Mae'r peth yma mae'n ei wneud sy'n eitha' ciwt, oherwydd ei fod e'n gwybod mai ei lyfrau e' yw nhw, mae'n dod â nhw atoch chi weithiau pan mae eisiau i chi ddarllen iddo, ac mae e'n ceisio agor tudalennau'r llyfr."
>
> **Rhiant ar incwm is, yn siarad am Dechrau Da i Blant Bach**



## Astudiaeth achos: Defnyddio Dechrau Da yng Ngwasanaeth Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Integredig 0-19 Hull (Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Addysgu Humber)

Fel tîm o ymwelwyr iechyd, mae cefnogi meithrin perthnasoedd ac ymlyniad yn ganolog i'r gwaith rydym yn ei wneud. Yn Hull, lle mae lefelau amddifadedd yn uchel, rydyn ni'n mabwysiadu ymagwedd ragweithiol tuag at ymyrraeth gynnar. Mae ein strategaeth ehangach yn canolbwyntio ar roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn, gyda'r nod o leihau anghydraddoldebau a gwella canlyniadau hirdymor trwy ymgysylltu yn gynnar. Mae Dechrau Da yn edefyn allweddol sydd wedi'i wau trwy'r fframwaith cymorth ehangach hwn. Mae'n ein helpu ni i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd plant a theuluoedd a phenderfynyddion ehangach iechyd.

"Fel yr unig wasanaeth nyrsio iechyd cyhoeddus 0-19 cyffredinol, rydyn ni'n gweithio gyda phoblogaeth amrywiol, gan gynnwys teuluoedd sy'n wynebu caledi economaidd, ynysu cymdeithasol, a rhwystrau iaith. Mae llawer yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd uchel, ac mae ein gwasanaeth 0-19 yn hyrwyddo pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu yn y cartref ac yn sicrhau bod pob teulu, waeth beth fo'i gefndir, yn cael mynediad at lyfrau." **Rebecca Price, Rheolwr Gwasanaeth**

Ein rôl, fel rhan o'r tîm o amgylch y teulu, yw helpu rhieni a gofalwyr i ymateb i anghenion eu plentyn. Mae darllen ar y cyd a llyfrau yn offer allweddol rydyn ni'n eu defnyddio i helpu i gyflawni hyn.

"Nid llyfr yn unig ydyw. Rydyn ni'n defnyddio llyfrau fel prop i helpu i edrych ar sut i ddatblygu perthnasoedd meithringar, diogel. Mae'n offeryn i ddangos yn ymarferol sut i ymgysylltu â'r plentyn a dyfnhau perthnasoedd. Rydyn ni'n defnyddio dull adlewyrchu ac yn dangos sut i ddefnyddio llyfr gyda phlentyn ifanc. Rydyn ni'n dangos sut mae'r plentyn yn dangos diddordeb ac yn ymateb ar unwaith. Rydyn ni'n cefnogi rhieni a gofalwyr i fod yn ymatebol ac yn sylwgar i'r plentyn, gan eu hannog i fod yn agos ac yn bresennol yn gorfforol, gan ddefnyddio straeon i greu'r cysylltiadau hyn." **Kathryn Stark, Arweinydd Tîm Clinigol**

Mae llyfrau yn chwarae rôl hanfodol wrth chwalu rhwystrau. Rydyn ni'n ymweld â theuluoedd yn eu cartrefi, sy'n ein helpu i feithrin cysylltiadau cryf â nhw. Mae hyn yn sicrhau bod babanod, plant a theuluoedd yn cael cymorth holistaidd, cydgysylltiedig ac yn cael eu cysylltu'n effeithiol â gwasanaethau ehangach. Nid oes gan rai teuluoedd lawer o ymddiriedaeth mewn gwasanaethau plant, felly mae ein tîm yn blaenoriaethu meithrin perthynas trwy ymgysylltu mewn ffordd gyson, anfeirniadol. Mae natur gyffredinol Dechrau Da yn dileu stigma, yn creu profiad a rennir ar draws cymunedau, ac yn sicrhau bod teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn hytrach na'u neilltuo.




> "Mae llyfrau a darllen yn gwella'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn gyffredinol i gefnogi teuluoedd. Mae gennym ni nifer uchel o heriau ymlyniad ledled y ddinas, mae hyn yn effeithio ar y ffordd y mae plant yn dysgu ac yn datblygu. Rydyn ni'n ymyrryd ac yn cefnogi'n gynnar i liniaru'r adfyd hwn. Mae llyfrau'n helpu i dorri'r iâ... bydd rhywbeth mor syml â llyfr yn sicrhau bod teulu yn ymgysylltu â ni ac yna gallwn ni eu helpu."
>
> **Louise Chadwick, Ymarferydd Arbenigol SEND**

## Cynnwys darllen ym mywydau teuluoedd blynyddoedd cynnar

Mae rhieni a gofalwyr yn gwybod bod darllen ar y cyd yn bwysig, ond mae gwneud iddo deimlo'n werth chweil yn allweddol wrth feithrin arferion parhaol. Yn BookTrust, rydym yn canolbwyntio ar greu profiadau darllen pleserus y gellir eu plethu i mewn i drefn ddyddiol teuluoedd. Mae'r eiliadau hyn o gysylltiad yn ysgogi ymddygiadau a chanlyniadau i deuluoedd yn y blynyddoedd cynnar. Maent hefyd yn hanfodol i'r ffordd y mae ein partneriaid yn ennyn diddordeb teuluoedd mewn darllen.

Dyna pam rydym yn mabwysiadu dull integredig, gan arfogi partneriaid a chymunedau gyda'r llyfrau, yr offer, y dysgu a'r seilwaith sydd eu hangen arnynt i helpu teuluoedd i greu'r eiliadau hyn.




**Rydym wedi gweithio trwy rwydweithiau lleol ers dros 30 mlynedd**

**Bob blwyddyn, rydym yn gweithio gyda dros 19,000 o leoliadau ar draws y sectorau addysg, llyfrgelloedd, iechyd, gofal cymdeithasol plant a chymorth cynnar**

## Ein gweithgareddau

**Yn genedlaethol:**
Rydym yn darparu seilwaith cyson, sylfaenol ar gyfer darllen yn y blynyddoedd cynnar

**Yn lleol:**
Rydym yn helpu i nodi, cysylltu ac addasu llwybrau lleol

**Partneriaid:**
Rydym yn adeiladu ar brofiad ac ymarfer partneriaid, gan ddarparu rhaglenni hyblyg sy'n seiliedig ar dystiolaeth

**Teuluoedd:**
Mae ein llyfrau, offer darllen a chymorth yn gwneud darllen a rhannu straeon yn hwyl ac yn hawdd i'w gwau i mewn i arferion dyddiol

... gan lunio amodau sy'n meithrin cefnogaeth ar gyfer darllen a diddordeb ynddo.

... fel bod gwasanaethau ar draws sectorau yn alinio ac yn integreiddio darllen ar y cyd â chymorth ehangach i deuluoedd.

... gan gryfhau cymorth darllen yn y sefydliadau a'r rhwydweithiau o amgylch teuluoedd.

... gan sbarduno mwynhad a chysylltiad emosiynol.

## Ein canlyniadau

**Rydym yn cefnogi 1.4 miliwn o blant bob blwyddyn**







## Yr effaith rydym yn ei chael

**Mae darllen yn dod yn rhan o fywyd bob dydd**

**Mae teuluoedd yn mwynhau'r manteision niferus y mae darllen yn eu cynnig – yn y foment ac wrth i'w plant dyfu**




**Mae gennym rwydwaith o dros 34,000 o bartneriaid sy'n darparu ein rhaglenni**

**Pŵer dull gweithredu cyffredinol:**
Mae gwasanaethau ymwelwyr iechyd yn hanfodol oherwydd eu bod yn anelu at gyrraedd pob teulu ac yn darparu cymorth wedi'i deilwra yn seiliedig ar anghenion pob teulu. Yn BookTrust, rydym yn cofleidio'r egwyddor hon yn y ffordd rydym yn gweithredu: gan sicrhau bod pob teulu yn cael mynediad i'r cymorth rydym yn ei roi a dylunio a chyflawni mewn ffordd sy'n gweithio orau i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Mae hyn yn golygu bod y cymorth a roddir yn rhagweithiol ac yn deg – mae teuluoedd yn cael help heb orfod cymryd y cam cyntaf.

## Gwneud gwahaniaeth i blant sydd angen cymorth fwyaf

Fel arfer, erbyn i blant ddechrau ysgol, mae anghydraddoldebau yn eu datblygiad wedi dod i'r amlwg eisoes – ac, yn aml, maent yn tyfu dros amser. Mae'r gwahaniaethau hyn nid yn unig yn amlwg yn natblygiad plant ond hefyd yn y profiadau cynnar a geir o feithrin perthnasoedd ac ymlyniad.

Y ffactor mwyaf arwyddocaol wrth feithrin perthnasoedd ac ymlyniad yw ansawdd a chysondeb perthnasoedd plant â rhoddwyr gofal, nad yw'n dibynnu ar gefndir.[30] Mae llawer o blant o aelwydydd sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael llawer o gymorth gyda'u datblygiad cynnar, ond mae'r darlun cyffredinol yn peri pryder. Gall heriau sy'n cael eu creu gan dlodi neu straen economaidd-gymdeithasol effeithio ar yr amgylchedd gofalu. Mae'r ymchwil yn dangos bod cysylltiad rhwng yr heriau hyn a gofal llai sensitif, amgylcheddau llai cefnogol yn y cartref a mwy o straen neu wrthdaro yn y teulu.[31] Gall pob un o'r rhain gael effaith negyddol ar ddatblygiad cynnar plentyn.

Mae darllen yn rhywbeth i bob plentyn – dyna sylfaen cenhadaeth BookTrust. Rydym yn canolbwyntio ar blant a theuluoedd sydd angen ein cymorth fwyaf, gan mai nhw allai elw fwyaf arno. Dyna pam rydym yn dylunio ein rhaglenni o amgylch eu hanghenion, gan greu'r llwybrau cywir i'w diwallu lle maen nhw. Ac mae'n gweithio: mae 62% o deuluoedd ar incwm isel a dderbyniodd Dechrau Da i Blant Bach a/neu Dechrau Da Cyn Oed Ysgol wedi ceisio sefydlu trefn ddarllen gartref ac mae 88% yn cytuno ei fod wedi creu mwy o gyfleoedd i dreulio amser gwerth chweil gyda'i gilydd.[32]

Mae 88% o'n partneriaid blynyddoedd cynnar yn poeni am feithrin perthnasoedd a pherthnasoedd teuluol.[33] Mae'r perthnasoedd hyn yn sylfaenol i ddysgu cadarnhaol yn y cartref, gan olygu ei bod yn bwysicach nag erioed eu cryfhau trwy ddarllen ar y cyd yn gynnar.

### Hawliau Darllen: mae llyfrau'n creu dyfodol mwy disglair

Mae BookTrust yn partneru â Frank Cottrell-Boyce, Bardd Plant Waterstones 2024-26, ar y genhadaeth Hawliau Darllen – i sicrhau bod pob plentyn yn gallu elwa ar ddarllen ar y cyd. Mae ein hadroddiad Hawliau Darllen yn nodi gweledigaeth a rennir ar gyfer darllen yn y blynyddoedd cynnar, wedi'i llunio gan arbenigwyr ar draws y sectorau gwleidyddol, addysg, llythrennedd, blynyddoedd cynnar, celfyddydau, gofal cymdeithasol plant ac iechyd. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i:

- Ymwreiddio darllen ar y cyd yn gynnar mewn polisi a fframweithiau
- Cynnwys darllen ar y cyd yn yr hyfforddiant a roddir i'r gweithlu
- Blaenoriaethu mynediad at lyfrau cynrychioliadol o ansawdd uchel
- Mabwysiadu dulliau cydgysylltiedig sy'n seiliedig ar le
- Rhannu tystiolaeth a chefnogi ymchwil lle mae yna fylchau mewn dealltwriaeth o hyd.





Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â bwlch allweddol yn y llenyddiaeth trwy ddod â mewnwelediadau o wahanol ddisgyblaethau ynghyd. Mae'n esbonio'r rôl y mae darllen ar y cyd yn ei chwarae wrth gefnogi agweddau perthynol ar yr amgylchedd dysgu yn y cartref a'r mecanweithiau y mae'n gweithio drwyddynt. Er mai ychydig o sylw sydd wedi'i roi i hyn, rydym yn credu, trwy fframio darllen ar y cyd fel *sgaffaldiau perthynol,* y gallwn ni ddatgloi ei lawn botensial wrth gefnogi datblygiad ein plant a'u canlyniadau yn y dyfodol.

**I drafod sut allwch chi gefnogi gwaith BookTrust, cysylltwch â ni yn queries@booktrust.org.uk**

**I ddarganfod mwy am ein hymchwil, ewch i'n gwefan (Saesneg yn unig) Ymchwil ac Effaith BookTrust**

> Rwy'n credu ei bod hi'n mwynhau'r amser. Dim ond ni. Dim byd i dynnu sylw... Mae'n rhoi cyfle i'ch ymennydd a phopeth dawelu ar ôl diwrnod prysur, wyddoch chi ... Rwy'n credu ei bod hi wir yn gwerthfawrogi'r amser rydyn ni'n ei gael gyda'n gilydd, dim ond ni.
>
> **Rhiant ar incwm is sy'n derbyn Dechrau Da**

Hoffem ddiolch i aelodau o'n Grŵp Goruchwylio Dysgu, y rhai sydd wedi cyfrannu at ein hymgyrch Hawliau Darllen ac, wrth gwrs, ein holl Gydlynwyr Dechrau Da a'n partneriaid darparu sy'n arloesi, yn rhannu dysgu ac yn darparu cymorth darllen i deuluoedd.

BookTrust
Getting children reading

**Cysylltwch â ni**
queries@booktrust.org.uk
booktrust.org.uk
Dilynwch ni: @BookTrust

## Cyfeiriadau


1 Arolwg Partneriaid BookTrust (2025) Arolwg ar-lein o 668 o bartneriaid blynyddoedd cynnar BookTrust yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2025. Ffigurau yn seiliedig ar 568 o ymatebwyr y mae meithrin perthnasoedd yn flaenoriaeth iddynt a 561 o ymatebwyr y mae dysgu yn y cartref yn flaenoriaeth iddynt **Arolwg Partneriaid BookTrust | BookTrust**

2 Y Cyngor Gwyddonol Cenedlaethol ar y Plentyn sy'n Datblygu (2004) 'Young children develop in an environment of relationships', Papur Gwaith Rhif 1. Ar gael yn **Young Children Develop in an Environment of Relationships: Working Paper No. 1**

3 Frosch, C.A., Schoppe-Sullivan, S.J. ac O'Banion, D.D. (2019) 'Parenting and Child Development: A Relational Health Perspective.' American Journal of Lifestyle Medicine, 15(1), tud. 45-59. **https://doi.org/10.1177/15598276198490**

4 Siegel, D. J., a Bryson, T. P. (2012) 'The Whole-Brain Child: 12 proven strategies to nurture your child's developing mind', Llundain: Constable & Robinson.

5 Klaus, M. H. a Kennell, J. H. (1976) 'Maternal-infant bonding: The impact of early separation or loss on family development.' C.V. Mosby.

6 Klaus, M. H. a Kennell, J. H. (1976) 'Maternal-infant bonding: The impact of early separation or loss on family development', C.V. Mosby.

7 Bowlby, J. (1969) 'Attachment and loss: Vol. 1. Attachment', Efrog Newydd: Basic Books.

8 Ainsworth, M. D. S., Blehar, M. C., Waters, E. a Wall, S. (1978) 'Patterns of attachment: A psychological study of the Strange Situation', Hillsdale, NJ: Lawrence Erlbaum Associates.

Bowlby, J. (1969) 'Attachment and loss: Vol. 1. Attachment', Efrog Newydd: Basic Books.

9 Duschinsky, R. (2021) 'Demystifying attachment', Cymdeithas Seicolegol Prydain. Ar gael yn: **https://www.bps.org.uk/psychologist/demystifying-attachment**

10 Foster, S. L., Schofield, G., Geoghegan, L., Hood, R., Sagi-Schwartz, A., Bakkum, L., ... Duschinsky, R. (2025) 'Attachment theory and research: what should be on the core curriculum for child and family social workers?', Social Work Education, tud. 1–18. **https://doi.org/10.1080/02615479.2025.2531859**

11 Foster, S. L., Schofield, G., Geoghegan, L., Hood, R., Sagi-Schwartz, A., Bakkum, L., ... Duschinsky, R. (2025) 'Attachment theory and research: what should be on the core curriculum for child and family social workers?', Social Work Education, tud. 1–18. **https://doi.org/10.1080/02615479.2025.2531859**

12 Foster, S. L., Schofield, G., Geoghegan, L., Hood, R., Sagi-Schwartz, A., Bakkum, L., ... Duschinsky, R. (2025) 'Attachment theory and research: what should be on the core curriculum for child and family social workers?', Social Work Education, tud. 1–18. **https://doi.org/10.1080/02615479.2025.2531859**

13 Foster, S. L., Schofield, G., Geoghegan, L., Hood, R., Sagi-Schwartz, A., Bakkum, L., ... Duschinsky, R. (2025) 'Attachment theory and research: what should be on the core curriculum for child and family social workers?', Social Work Education, tud. 1–18. **https://doi.org/10.1080/02615479.2025.2531859**

14 Bergman Deitcher, D., Aram, D. ac Adar, G. (2019) 'Book selection for shared reading: Parents' considerations and researchers' views', Journal of Early Childhood Literacy, 19(3), tud. 291-315. https://doi.org/10.1177/1468798417718236

Egan, S.M, Moloney M, Pope J, et al. (2022) 'From stories at bedtime to a love of reading: Parental practices and beliefs about reading with infants', Journal of Early Childhood Literacy, 25(1), tud. 158-184. https://doi.org/10.1177/14687984221123710

Kucirkova, N., a Grøver, V. (2024) 'The importance of embodiment and agency in parents' positive attitudes towards shared reading with their children', Early Childhood Education Journal, 52(1), tud. 221–230. https://doi.org/10.1007/s10643-022-01415-1

Duschinsky, R. (2025) 'Developments in attachment research', Gwasg Prifysgol Rhydychen. Ar gael yn: Developments in Attachment Research

15 Chacko, A., Fabiano, G. A., Doctoroff, G. L. a Fortson, B. (2018) 'Engaging Fathers in Effective Parenting for Preschool Children Using Shared Book Reading: A Randomized Controlled Trial', Journal of clinical child and adolescent psychology: the official journal for the Society of Clinical Child and Adolescent Psychology, American Psychological Association, Division 53, 47(1), tud. 79-93. https://doi.org/10.1080/15374416.2016.1266648

16 Perry, R. (2013) 'Teaching practice for early childhood: A guide for students', Routledge.

Consortiwm Awduraeth Hutton, J. S., Horowitz-Kraus, T., Mendelsohn, A. L., DeWitt, T., Holland, S. K. a C-Mind. (2015) 'Home reading environment and brain activation in preschool children listening to stories', Pediatrics, 136(3), tud. 466-478. https://doi.org/10.1542/peds.2015-0359

17 Dowdall, N., Murray, L., Skeen, S., Marlow, M., De Pascalis, L., Gardner, F., Tomalinson, M., a Cooper, P. (2021) 'Book-sharing for parenting and child development in South Africa: A randomized controlled trial', Child Development, 92(6), tud. 2252-2267. https://doi.org/10.1111/cdev.13619

Murray, L., Jennings, S., Perry, H., Andrews, M., De Wilde, K., Newell, A., ... Cooper, P. J. (2023) 'Effects of training parents in dialogic book-sharing: the early-years provision in children's centers (EPICC) study', Early Childhood Research Quarterly, 62, pp. 1-16. https://doi.org/10.1016/j.ecresq.2022.07.008

18 Canfield, C. F., Miller, E. B., Shaw, D. S., Morris, P., Alonso, A. a Mendelsohn, A. L. (2020) 'Beyond language: Impacts of shared reading on parenting stress and early parent-child relational health', Developmental psychology, 56(7), tud. 1305-1315. https://doi.org/10.1037/dev0000940

19 Murray, L., De Pascalis, L., Tomlinson, M., Vally, Z., Dadomo, H. a MacLachlan, B. (2016) 'Randomized controlled trial of a book-sharing intervention in a deprived South African community: Effects on carer–infant interactions, and their relation to infant cognitive and socioemotional outcome', Journal of Child Psychology and Psychiatry, 57(12), tud. 1370-1379. https://doi.org/10.1111/jcpp.12605

20 Chacko, A., Fabiano, G. A., Doctoroff, G. L. a Fortson, B.(2018) 'Engaging Fathers in Effective Parenting for Preschool Children Using Shared Book Reading: A Randomized Controlled Trial ', Journal of clinical child and adolescent psychology: the official journal for the Society of Clinical Child and Adolescent Psychology, American Psychological Association, Division 53, 47(1), tud. 79–93. https://doi.org/10.1080/15374416.2016.1266648

21 Starreveld, K. M., Overbeek, M. M., Willemen, A. M. a Bakermans-Kranenburg, M. J. (2024) 'Video-feedback intervention to promote positive parenting and sensitive discipline in early elementary education (VIPP-School): a randomized controlled trial', Attachment & Human Development, 26(6), tud. 545–566. https://doi.org/10.1080/14616734.2024.2419621

Juffer, F., Bakermans-Kranenburg, M. J. a Van IJzendoorn, M.H. (Gol.) (2008) 'Promoting positive parenting: An attachment-based intervention', Efrog Newydd: Taylor & Francis. https://doi.org/10.4324/9781003400738

Juffer, F., Bakermans-Kranenburg, M. J., a Van IJzendoorn, M. H. (2015) 'Manual Video feedback Intervention to promote Positive Parenting and Sensitive Discipline (VIPP-SD) (fersiwn 3.0)', Leiden, yr Iseldiroedd: Prifysgol Leiden.

22 Madigan, S., Deneault, A.-A., Duschinsky, R., Bakermans-Kranenburg, M. J., Schuengel, C., van IJzendoorn, M. H., Ly, A., Fearon, R. M. P., Eirich, R. a Verhage, M. L. (2024) 'Maternal and paternal sensitivity: Key determinants of child attachment security examined through meta analysis', Psychological Bulletin, 150(7), tud. 839–872. DOI: 10.1037/bul0000433

23 Deneault, A.-A., Duschinsky, R., van IJzendoorn, M. H., Roisman, G. I., Ly, A., Fearon, R. M. P. a Madigan, S. (2023) 'Does child–mother attachment predict and mediate language and cognitive outcomes? A series of meta-analyses', Developmental Review, 70, 101093. https://doi.org/10.1016/j.dr.2023.101093

24 Weisleder, A., Cates, C. B., Harding, J. F., Johnson, S. B., Canfield, C. F., Seery, A. M., Raak, C. D., Alonso, A., Dreyer, B. P., a Mendelsohn, A. L. (2019) 'Links between Shared Reading and Play, Parent Psychosocial Functioning, and Child Behavior: Evidence from a Randomized Controlled Trial', The Journal of pediatrics, 213, tud. 187-195.e1. https://doi.org/10.1016/j.jpeds.2019.06.037

25 Wass, S., Greenwood, E., Esposito, G., Smith, C., Necef, I. a Phillips, E. (2024) 'Annual Research Review: 'There, the dance is – at the still point of the turning world' – dynamic systems perspectives on coregulation and dysregulation during early development', Journal of Child Psychology and Psychiatry, 65 (4), tud. 481-507. https://doi.org/10.1111/jcpp.13960

26 BookTrust ac Untapped Innovation (2023) Ymchwil ethnograffeg fideo gyda 24 o rieni/gofalwyr ar incwm isel yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Canfyddiadau heb eu cyhoeddi

BookTrust (2024) Ymchwil hydredol ansoddol gyda 22 o rieni/gofalwyr o aelwydydd incwm isel yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, y gwnaeth pob un ohonynt dderbyn Dechrau Da Babi, Dechrau Da i Blant Bach a/neu Dechrau Da Oed Cyn Ysgol. Canfyddiadau heb eu cyhoeddi

27 Morrison, V. a Wlodarczyk, L. (2009) ' Revisiting read-aloud: Instructional strategies that encourage students' engagement with texts', The Reading Teacher, 63(2), tud. 110–118. https://doi.org/10.1598/RT.63.2.2

28 Jimenez, M. E., Mendelsohn, A. L., Lin, Y., Shelton, P., a Reichman, N. (2019) 'Early shared reading is associated with less harsh parenting', Journal of Developmental & Behavioral Pediatrics, 40(7), tud. 530–537. https://doi.org/10.1097/DBP.0000000000000687

29 Jones, V. F., Franco, S. M., Metcalf, S. C., Popp, R., Staggs, S., a Thomas, A. E. (2000) 'The value of book distribution in a clinic-based literacy intervention program', Clinical pediatrics, 39(9), tud. 535–541. https://doi.org/10.1177/000992280003900905

30 Foster, S. L., Schofield, G., Geoghegan, L., Hood, R., Sagi-Schwartz, A., Bakkum, L., … Duschinsky, R. (2025) 'Attachment theory and research: what should be on the core curriculum for child and family social workers?', Social Work Education, tud. 1–18. **https://doi.org/10.1080/02615479.2025.2531859**

31 Raikes, H. A., a Thompson, R. A. (2005) 'Links between risk and attachment security: Models of influence', Journal of Applied Developmental Psychology, 26(4), tud. 440–455. **https://doi.org/10.1016/j.appdev.2005.04.003**

32 BookTrust (2025) Arolwg ar-lein o rieni/gofalwyr sy'n derbyn Dechrau Da i Blant Bach/Dechrau Da Cyn Oed Ysgol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar 314 o ymatebion a dderbyniwyd rhwng mis Hydref 2024 a mis Medi 2025. I ddod ym mis Rhagfyr 2025

33 Arolwg Partneriaid BookTrust (2025) Arolwg ar-lein o 668 o bartneriaid blynyddoedd cynnar BookTrust yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2025. **Arolwg Partneriaid BookTrust | BookTrust**

BookTrust
Getting children reading

**booktrust.org.uk**
**Dilynwch ni yn:** @BookTrust

© BookTrust 2025
Rhif elusen gofrestredig 313343